Adroddiad i'r: Pwyllgor Cynllunio

Dyddiad y cyfarfod: 14 Ebrill 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog: Y Cynghorydd Mark Young (Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel)

Awdur yr Adroddiad: Karsten Bruβk (Swyddog Cynllunio)

Teitl Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn ynghylch dogfen Llywodraeth Cymru, 'Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040'.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae Argraffiad 11 Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2021) yn nodi bod 'Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040' yn rhan o'r cynllun datblygu statudol, ac, am y rheswm hwnnw, yn berthnasol i bob cais cynllunio a bennir gan Gyngor Sir Ddinbych.

2.2. Bydd angen i Aelodau fod yn ymwybodol o flaenoriaethau strategol, strategaeth ofodol a pholisïau'r ddogfen wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd Sir Ddinbych.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

4. Manylion yr Adroddiad

Cyflwyniad

4.1. 'Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040' yw teitl y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno

strategaeth ofodol ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol, megis gwella iechyd a lles cymunedau lleol, a fydd yn cael eu cefnogi drwy wneud penderfyniadau yn y system gynllunio. Fe'i cyhoeddwyd ar 24 Chwefror 2021.

4.2. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cael darpariaeth cynllun llawn ar bob un o dair lefel hierarchaeth y cynllun datblygu: (1) Lefel genedlaethol – Cymru'r Dyfodol/ FfDC; (2) Lefel ranbarthol – Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS); a (3) Lefel leol – Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl). Ar hyn o bryd nid oes Cynlluniau Datblygu Strategol yng Nghymru ond bydd y gwaith paratoi'n dechrau o fewn yr un neu ddwy flynedd nesaf.

4.3. Mae 'Cymru'r Dyfodol - Cynllun Cenedlaethol 2040' wedi'i rannu'n bum pennod sy'n dilyn strwythur dilyniannol cyffredinol. Mae Pennod 1 yn cynnwys yr adran ragarweiniol; yn canolbwyntio ar baratoi dogfennau a statws cynllunio, ac yna esbonio sut mae'r ddogfen yn cyd-fynd ag amcanion a strategaethau polisi eraill Llywodraeth Cymru. Mae Pennod 2 yn rhoi trosolwg ystadegol a chartograffeg ac yn amlinellu'r heriau a'r cyfleoedd allweddol i Gymru yn ystod y 19 mlynedd nesaf.

4.4. Gan adeiladu ar yr adran flaenorol, mae Pennod 3 yn ymwneud â chyflwyno Canlyniadau Cymru'r Dyfodol a ddefnyddir i fesur cynnydd o ran mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd allweddol. Mae'r bennod hon hefyd yn cynnwys y fframwaith monitro ar gyfer Cymru'r Dyfodol, gan ddechrau gyda'r adolygiad cyntaf o ddogfennau mewn pum mlynedd o'r dyddiad cyhoeddi. Mae Pennod 4 yn darparu'r prif fframwaith polisi ar gyfer materion o bwysigrwydd cenedlaethol i Gymru gyfan, yn seiliedig ar y saith 'Egwyddor Gwneud Lleoedd Strategol', ac yn amlinellu'r prif feysydd newid ar lefel genedlaethol er mwyn cyflawni Canlyniadau Cymru'r Dyfodol. Daw Pennod 5 i ben drwy gyflwyno'r pedwar rhanbarth a fydd yn ffurfio'r graddau gofodol ar gyfer y Cynlluniau Datblygu Strategol sydd ar ddod.

4.5. Mae Canlyniadau Cymru'r Dyfodol ('Cymru lle mae pobl yn byw...') yn ddatganiad lle bydd Cymru mewn 20 mlynedd ac yn cyflwyno'r uchelgeisiau cyffredinol yn seiliedig ar bolisi cenedlaethol a chanlyniadau gwneud lleoedd cynaliadwy fel y'u cynhwysir ym Maes Polisi Cynllunio Cymru. Nod Llywodraeth Cymru yw adolygu 'Cymru'r Dyfodol' bob pum mlynedd.

4.6. Mae strategaeth ofodol Cymru’r Dyfodol yn nodi ac yn cysylltu'r canolfannau cenedlaethol a rhanbarthol allweddol, ac yn darparu sail ar gyfer buddsoddiadau seilwaith hirdymor, yn nodi blaenoriaethau ar gyfer y system gynllunio a fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. (Ceir copi o'r Strategaeth Ofodol yn Atodiad 1).

4.7. Er ei fod yn benodol o ran twf ac adfywio mewn ardaloedd trefol, mae Llywodraeth Cymru yn dirprwyo'r broses o nodi mesurau cynllunio i gefnogi cymunedau gwledig a chreu ardaloedd gwledig bywiog i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol yn y dyfodol, gweler Polisïau 4 a 5 Cymru'r Dyfodol.

4.8. Mae Polisi 7 yn mynd i'r afael â'r angen am Dai Fforddiadwy - nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu'r modd y darperir TFf drwy sicrhau bod cyllid yn cael ei ddyrannu a'i ddefnyddio'n effeithiol. Mater i awdurdodau cynllunio yw datblygu polisïau cryf sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer eu cynlluniau datblygu priodol, gan gynnwys pennu targedau cynlluniau datblygu yn seiliedig ar amcangyfrifon rhanbarthol neu leol o'r angen am dai ac asesiadau lleol. Fodd bynnag, mae’r cyfiawnhad dros y Polisi yn datgan *'Nid yw'r amcangyfrifon cenedlaethol a rhanbarthol o angen yn adlewyrchu polisïau na digwyddiadau yn y dyfodol ac nid ydynt yn Ofyniad Tai i Gymru na'r rhanbarthau.'*

4.9. Mae 'Cymru'n Dyfodol' yn cyflwyno 'Ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt' newydd (gweler Polisi FfDC 17). Yn yr ardaloedd hyn mae rhagdybiaeth o blaid datblygu ynni gwynt ar raddfa fawr ar y tir a derbyn y newid tirwedd cysylltiedig, yn amodol ar feini prawf polisi manwl ym maes polisi'r FfDC 18. Felly, mae Nodyn Cyngor Technegol 8 'Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy' a'r Ardaloedd Chwilio Strategol atodol wedi'u canslo ar 24 Chwefror 2021. Mae Atodiad 2 yn cynnwys map, ynghyd â dau fewnosodiad, sy'n cymharu ffin safle'r SSA-A Clocaenog blaenorol â'r ddwy 'ardal a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt' sydd naill ai'n ffinio â ffin y Sir neu sydd wedi'u lleoli'n rhannol yn Sir Ddinbych.

4.10. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol ym mhob un o'r pedwar rhanbarth cynllunio: 'De Ddwyrain', 'De Orllewin', 'Canolbarth Gorllewin', a 'Gogledd'. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol ystyried Canlyniadau Cymru’r Dyfodol ac ymateb iddynt a rhaid i'r fframwaith gofodol fod

yn unol â'r FfDC. Ar ôl eu mabwysiadu, cânt eu hategu gan Gynlluniau Datblygu Lleol (Lite) ar lefel y cynllun datblygu lleol. Dylid parhau i baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol hyd nes y caiff CDS ei fabwysiadu ar gyfer y rhanbarth.

4.11. Polisi 19 Cymru'r Dyfodol yw'r polisi rhanbarthol trosfwaol sy'n cynnwys ystod eang o bynciau i'w cwmpasu gan CDS a (lle bo angen) Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae gofynion polisi ychwanegol neu fanwl wedi'u cynnwys mewn nifer o bolisïau Cymru'r Dyfodol Cymru gyfan.

4.12. Ardaloedd gweinyddol Cyngor Sir Ddinbych a'r pum awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru, ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yw rhanbarth y 'GOGLEDD'. Mae Atodiad 3 yn cynnwys y diagram strategol rhanbarthol. Mae Polisi 20 Cymru'r Dyfodol yn dynodi 'Wrecsam a Glannau Dyfrdwy' yn 'Ardal Twf Cenedlaethol' yng Ngogledd Cymru. Dyma fydd prif ffocws twf a buddsoddiad Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol yn y rhanbarth.

4.13. Gan ategu Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, mae nifer o drefi ar hyd yr arfordir o Gaergybi yn y gorllewin i Brestatyn yn y dwyrain wedi'u dynodi'n 'Ardaloedd Twf Rhanbarthol', gweler Polisi 21 Cymru'r Dyfodol. Mater i'r CDS a'r Cynlluniau Datblygu Lleol fydd cydnabod rôl y lleoedd hyn ar gyfer yr amgylchoedd ehangach a chefnogi eu swyddogaeth barhaus fel canolbwynt ar gyfer twf is-ranbarthol. Gan gydnabod natur ddiagramaidd y strategaeth ofodol ranbarthol, bydd Swyddogion yn ceisio mwy o eglurder ynghylch maint gofodol yr ardal twf rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru ac yn gobeithio y bydd rhagor o fanylion am ffiniau yn cael eu cynnwys mewn unrhyw Gynllun Datblygu Strategol yn y dyfodol. Mae Polisi 21 yn cyfeirio'n benodol at y trefi arfordirol, gan gynnwys y Rhyl a Phrestatyn, ond mae'r diagram yn awgrymu bod yr ardal gyfan i'r gogledd o'r A55 i'w chynnwys yn yr ardal twf rhanbarthol; gan gyd-fynd â phrif rwydwaith llwybrau Metro Gogledd Cymru yn y dyfodol.

4.14. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Cynllun Datblygu Strategol gefnogi'r gwaith o gyflawni Bargen Twf Gogledd Cymru. Mae 'Cymru'r Dyfodol - Cynllun Cenedlaethol 2040' hefyd yn rhoi pwyslais ar dwristiaeth fel sector pwysig i'r economi ranbarthol ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd addysg uwch ym Mangor a Wrecsam. Mater i'r Cynllun Datblygu Strategol fydd datblygu dull rhanbarthol o fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

4.15. Caiff llawer o Flaenoriaethau Corfforaethol sylw, eu cyflawni neu eu cefnogi'n ariannol gan Lywodraeth Cymru. Mae ‘Cymru’r Dyfodol– Cynllun Cenedlaethol 2040' yn arwain camau gweithredu a phenderfyniadau buddsoddi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol ar lefel ranbarthol a lleol.

5. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

5.1. Nid oes unrhyw gost yn deillio o nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

6. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

6.1. Nid oes Asesiad o’r Effaith ar Les wedi’i gynnal oherwydd na cheisir penderfyniad am bolisi, strategaeth, gweithdrefnau gweithio na rhaglen y Cyngor. Gofynnir i'r Aelodau nodi cynnwys dogfen sydd wedi'i chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn unig.

7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

7.1. Cafodd aelodau'r Grŵp Cynllunio Strategol eu briffio am gynnwys ‘Cymru’r Dyfodol– Cynllun Cenedlaethol 2040' ar 22 Mawrth 2021.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1. Ni ofynnwyd am Ddatganiad y Prif Swyddog Cyllid oherwydd bod yr adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor Cynllunio nodi cynnwys dogfen gan Lywodraeth Cymru.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

9.1. Nid oes unrhyw risgiau’n codi o nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

10.1. Nid oes angen penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae ‘Cymru’n Dyfodol– Cynllun Cenedlaethol 2040' wedi'i baratoi a'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

10.2. Mae Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 (Chwefror 2021), paragraff 1.24, yn nodi bod ‘Cymru’r Dyfodol - Cynllun Cenedlaethol 2040' yn rhan o gynllun datblygu statudol y Sir.